# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 8

AELODAU: TALIADAU A PHENSIYNAU

*Atodol*

### 159 Dehongli Rhan 8

(1) Yn y Rhan hon—

mae i “adroddiad blynyddol” (*“annual report”*) yr ystyr a roddir yn adran 145;

mae i “aelod” (“*member*”), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yr ystyr a roddir yn adran 144;

mae i “aelod cyfetholedig” (“*co-opted member*”), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yr ystyr a roddir yn adran 144;

mae i “awdurdod perthnasol” (“*relevant authority*”) yr ystyr a roddir yn adran 144 (ac mae cyfeiriad at ddisgrifiad o awdurdod perthnasol i'w ddarllen yn unol â'r adran honno);

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

mae i “mater perthnasol” (“*relevant matter*”) yr ystyr a roddir yn adran 142;

ystyr “y Panel” (*“the Panel”*) yw Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;

mae i “pensiwn perthnasol” (*“relevant pension”*) yr ystyr a roddir yn adran 143.

(2) Mae'r cyfeiriadau yn adrannau 153, 154 a 157 at ofynion a osodir gan adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at ofynion sy'n cael eu cynnwys mewn adroddiad blynyddol gan adroddiad atodol.